

YN ACHOS GWEITHREDIADAU CAMYMDDWYN DIFRIFOL O
DAN REOLIADAU (YMDDYGIAD) YR HEDDLU 2020
RHWNG:

Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru Awdurdod Priodol

A

Ditectif Arolygydd 671 Paul Gless Swyddog Dan Sylw

Dogfen benderfynu

Cyflwyniad

1. Cafodd y gweithrediadau camymddwyn eu clywed yn unol â Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, fel y diwygiwyd.

Roedd yr Awdurdod Priodol yn cael ei gynrychioli gan Mr Peter Laverick

Roedd y Ditectif Arolygydd Gless yn cael ei gynrychioli gan Mr Hamlet.

DULL GWEITHREDU:

1. Panel ydym ni sy'n ystyried honiadau o gamymddwyn difrifol yn erbyn y swyddog uchod.
2. Rydym wedi ystyried yr holl dystiolaeth. Mae holl aelodau'r Panel wedi darllen y bwndel a ddarparwyd i ni cyn y gwrandawriad. Rydym wedi ystyried yr holl ddogfennau y cawsom ein cyfeirio atynt. Rydym hefyd wedi ystyried yr holl gyflwyniadau a wnaed ar ran pob parti. Rydym wedi ystyried y dogfennau pellach a gyflwynwyd yn ystod y gwrandawriad a galwyd ar dystiolaeth y tystion i roi tystiolaeth mewn person.
3. Wrth fynd i'r afael â'n tasgau, rydym wedi cadw'r canlynol mewn cof:
 - 3.1 Nid oes rhaid i ni benderfynu ar bob mater o anghydfod, dim ond y rhai sy'n ein helpu ni o ran a gaiff yr honiadau hyn eu profi.

3.2 Gallwn ddod i gasgliadau o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni, sy'n golygu y gallwn gyrraedd casgliadau synnwyr cyffredin o'r dystiolaeth, ond rydym wedi gwarchod yn erbyn damcaniaethu wrth ddod i'r casgliadau hynny.

3.3 Mae'n anochel bod ein canfyddiadau wedi'u gosod yn ddilynol, ond nid ydym wedi canfod unrhyw ffeithiau heb ystyried y matrices tystiolaethol cyfan yn gyntaf.

4. Y rheoliadau cymwys yw Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020.

5.1 Dyma ddull gweithredu'r Panel fel y'i gosodwyd yn Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu:

- a) Cadarnhau'r ffeithiau, boed y rheini wedi'u cyfaddef neu wedi'u profi.
- b) Penderfynu a yw'r swyddog wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol a honnwyd, ar sail y ffeithiau hynny.
- c) Penderfynu a yw unrhyw doriadau o'r fath yn gyfystyr â Chamymddwyn, Camymddwyn Difrifol neu ddim y naill na'r llall.
- d) Yn dibynnu ar y canfyddiadau o dan b) ac c) uchod, penderfynu ar y canlyniad.

BAICH A SAFON Y PRAWF

6.1 Mae baich y prawf ar yr Awdurdod Priodol.

6.2 Safon y prawf yw un o'r pwysau tebygolrwydd.

6.3 Mae'r honiadau fel y'u gosodwyd yn Hysbysiad Rheoliad 30 a oedd wedi'i gynnwys yn y bwndel.

7.0 Mae'r honiadau, fel y'u nodir gan yr AP fel a ganlyn:-

Ffeithiau a honnir.

7.1. A chithau'n swyddog heddlu gyda Heddlu De Cymru, honnir eich bod chi, Ditectif Arolygydd 671, ar 6 Ebrill 2023, wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol a nodir yn Atodlen 2 i Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020

7.2. O ganlyniad, cyhoeddir yr Hysbysiad hwn o dan Reoliad 30 o Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 i roi gwybod i chi y caiff y mater hwn bellach ei gyfeirio at Banel camymddwyn a bydd yn symud ymlaen i weithrediadau camymddwyn ar gyfer camymddwyn difrifol.

7.3. Dechreuodd yr achos yn eich erbyn o dan Ran 5 Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020. Ar 13 Gorffennaf 2023, cyhoeddwyd hysbysiad atgyfeirio i chi o dan Reoliad 51. Ar 28 Gorffennaf 2023, ailgyfeiriwyd yr achos yn eich erbyn i Ran 4, yn unol â Rheoliad 50. Hwn yr Hysbysiad Rheoliad 30 a gyhoeddwyd o dan Ran 4.

7.4. Ar 6 Ebrill 2023, tra'r oeddech yn gyrru [REDACTED] ch stopio ar yr [REDACTED] A48 yn Nhrelales, Pen-y-bont ar Ogwr gan PS 3433 Coulthard.

7.5. Gallai PS Coulthard aroglu diod feddwol yn y cerbyd a gofynnwyd i chi ddarparu sbesimen o anadl i'w ddadansoddi, a gwnaethoch gytuno. Roedd y darlleniad dilynol yn bositif, a chawsoch eich arestio a'ch cludo i Orsaf Heddlu Queens Road, Pen-y-bont ar Ogwr a'ch cadw yno.

7.6. Tra roeddech yn yn ddalfa yng Ngorsaf Heddlu Queens Road, gofynnwyd i chi i ddarparu dau sampl o anadl unwaith eto i'w dadansoddi. Gwnaethoch gytuno a'r darlleniad isaf oedd 41 microgram o alcohol mewn 100 mililitr o anadl. Roedd hyn yn uwch na'r terfyn yfed a gyrru cyfreithiol.

7.7. Yna, cawsoch eich cyhuddo fel a ganlyn, yn groes i adran 5(1)(a) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988: "Ar 06/04/2023 yn STREET RECORD, A48 CYLCHFAN TRELALLES, TRELALLES, PEN-Y-BONT AR OGWR, Pen-y-bont ar Ogwr y DU CF32 0LY gyrrodd gerbyd modur, sef ar ffordd, sef STREET RECORD, A48 CYLCHFAN TRELALLES, TRELALLES, PEN-Y-BONT AR OGWR, PEN-Y-BONT AR OGWR, y DU CF32 0LY ar ôl yfed cymaint o alcohol fel bod cyfran ohono yn eich anadl, sef 41 microgram o alcohol mewn 100 mililitr o anadl"

7.8. Cawsoch eich rhoi ar fechniaeth i fynychu Llys Ynadon Caerdydd ddydd Gwener 21 Ebrill 2023.

7.9. Ddydd Gwener 21 Ebrill 2023, gwnaethoch fynychu Llys Ynadon Caerdydd lle gwnaethoch bledio'n euog i'r drosedd uchod a chawsoch eich euogfarnu. Cawsoch y gosb ganlynol: Eich Gwahardd rhag Gyrru am 12 mis (wedi'i leihau o 3 Mis os caiff cwrs cymeradwy y Swyddfa Gartref ei gwblhau); a dirwy o £786.

7.10. Torrodd eich ymddygiad y Safonau Ymddygiad Proffesiynol mewn perthynas ag Ymddygiad Annheilwng. Mae eich ymddygiad o ran bod dros y terfyn a ragnodir ar gyfer alcohol a'r euogfarn droseddol ganlynol wedi dinistrio'r hygredded a'r ymddiriedaeth sydd gan Heddlu De Cymru ynoch chi fel swyddog heddlu. Mae hyder y cyhoedd ynoch chi fel swyddog heddlu a chan y cyhoedd y mae Heddlu De Cymru yn ei wasanaethu wedi'i danseilio'n ddifrifol gan eich gweithredoedd. Roedd eich ymddygiad yn achos difrifol o dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol, sy'n gyfystyr â Chamymddwyn Difrifol os profir ei fod mor ddifrifol ei fod yn cyfiawnhau camau diswyddo.

8.0 Darparodd yr AP nodyn agoriadol i'r Panel y mae'r Panel yn ddiolchgar amdano.

8.1 Mae'r dystiolaeth yn y mater hwn yn cynnwys bwndel y gwrandawriad. Ychwanegwyd tudalennau pellach at y bwndel yn ystod y gwrandawriad a gafodd eu hystyried hefyd. Mae'r nodyn agoriadol yn atgoffa'r Panel o'r dull gweithredu i'w gymryd a throsolwg o'r achos sy'n ddefnyddiol.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Panel wedi ystyried yr holl dystiolaeth a glywyd gan y tystion, y dystiolaeth yn y bwndel, ac unrhyw dystiolaeth bellach a gyflwynwyd yn ystod y gwrandawriad.

Wrth gadarnhau'r achos hwn, mabwysiadodd y Panel y 'dull gweithredu pedwar cam'; Mae hyn yn cynnwys yr hyn a ddarparwyd yn y bwndel a'r dystiolaeth fyw.

9.0 Cam 1 - Cadarnhau'r ffeithiau ar y pwysau tebygolrwydd

9.1 Wrth gadarnhau'r ffeithiau, ystyriodd y Panel yr honiadau fel yr amlinellwyd yn hysbysiad Rheoliad 30.

9.2 Mae'r swyddog wedi cyfaddef bod Paragraffau 1-9 o'r honiadau yn ddatganiadau ffeithiol. Aeth y Panel ati i ystyried paragraff 10 uchod.

Ystyriodd y Panel p'un a fu achos o dorri'r safon ymddygiad annheilwng ac, os canfuwyd mai dyma oedd yr achos, a yw'r achos hwnnw yn gyfystyr â chamymddwyn neu gamymddwyn difrifol.

9.3 Cadwodd y Panel ddiben triphlyg y gyfundrefn camymddwyn ar flaen ei feddwl drwy gydol y gweithrediadau:

1. Cynnal hyder y cyhoedd yng ngwasanaeth yr heddlu a'i enw da.
2. Cynnal safonau uchel o ran plismona ac atal camymddwyn.
3. Diogelu'r cyhoedd

9.4 Ymddygiad annheilwng

Mae'r safon mewn perthynas ag ymddygiad annheilwng yn nodi'n glir bod yn rhaid i swyddogion ymddwyn mewn ffordd nad yw'n dwyn anfri ar yr heddlu nac yn tanseilio hyder y cyhoedd ym maes plismona pan fydd ar ddyletswydd neu beidio.

9.5 Plediodd DI Gless yn euog i yfed a gyrru a chafodd ei euogfarnu o hynny yn Llys Ynadon Caerdydd, ddydd Gwener 21 Ebrill 2023. Mae hwn yn dramgwydd troseddol carcharadwy.

10.6 Cred y Panel fod y safon hon wedi cael ei thorri gan fod y cyhoedd yn disgwyl, yn gywir ddigon, i aelod o'r heddlu ymddwyn mewn ffordd sy'n cynnal ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu ac ym maes plismona yn gyffredinol a, phe bai pobl yn dod i wybod bod swyddog wedi cael euogfarn am yfed a gyrru dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd, byddai'r ymddiriedaeth

honno a'r hyder hwnnw yn cael eu niweidio.

10.0 CANFYDDIADAU AR GAMYMDDWYN/CAMYMDDWYN DIFRIFOL

Yna symudodd y Panel ymlaen i asesu difrifoldeb yr agweddau ar yr honiad y nodwyd iddo gael ei brofi.

10.1 Beiusrwydd

Mae canllawiau'r Coleg Plismona yn nodi ym mharagraff 4.9 bod 'Culpability denotes the officer's blameworthiness or responsibility for their actions. The more culpable or blameworthy the behaviour in question, the more serious the misconduct and the more severe the likely outcome'

Cred y Panel fod ymddygiad DI Gless yn fwriadol, am iddo gyfaddef iddo brynu'r botel o win gyda'r bwriad o yfed rhywfaint ohoni yn y car cyn gyrru gartref. Ar ôl yfed yr alcohol hwn, gwnaeth y penderfyniad i yrru chwe milltir i'w gartref.

Roedd DI Gless mewn swydd gyfrifol, nid dim ond yn rhinwedd ei swydd fel swyddog yr heddlu ond yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn swydd ddyrchafedig yn y sefydliad. Mae hyn yn gwaethgu ei feiusrwydd.

Cafodd DI Gless ei euogfarnu o dramgwydd troseddol a dyma'r rheswm y dechreuwyd y gweithrediadau yn ei erbyn. Mae'n annerbyniol i swyddogion yr heddlu, sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith, dorri'r gyfraith eu hunain. Mae'r Panel yn cydnabod safle'r Cwnsler ar gyfri ddwywaith ac yn nodi yma o ran yr effaith ar ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Fel Panel, teimlwn fod y lefel beiusrwydd rhwng CANOLIG ac UCHEL.

10.2 Niwed

Gallai camau gweithredu DI Gless fod wedi creu sefyllfa lle'r oedd yntau neu aelod o'r cyhoedd yn wynebu risg o anaf corfforol. Trwy ddewis yfed a gyrru, dangosodd DI Gless ddiystyrwch diofal am ddiogelwch pobl eraill. Ystyriodd y Panel y potensial am niwed gwirioneddol fel ffactor perthnasol yn yr achos hwn.

Ystyriodd y Panel y ffaith y gall gweithredoedd swyddog niweidio hyder y cyhoedd ac achosi niwed i enw da pe bai'r amgylchiadau'n hysbys i'r cyhoedd. Nid yw'r Panel yn derbyn y byddai gwybod amgylchiadau llawn yr achos yn lleihau pryder y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn, yn enwedig cyflawni trosedd. Mae camweddau swyddogion yr heddlu yn destun pryder cenedlaethol sylweddol ar hyn o bryd. Fel Panel, teimlwn mai CANOLIG yw lefel y niwed

10.3 Ffactorau gwaethgol

Fel uchod, roedd rhywfaint o bwrpasriad a chynllunio yn rhan o'r achos hwn.

Roedd DI Gless mewn swydd gyfrifol ac awdurdodol ac roedd ganddo gyfrifoldebau arwain ac roedd disgwyl iddo ymddwyn fel model rôl.

Fel y nodir uchod, mae pryder cenedlaethol sylweddol ar hyn o bryd ynglŷn â chamweddau swyddogion yr heddlu. Ni nododd y Panel unrhyw ffactorau gwaethgol eraill.

Fel Panel, teimlwn fod lefel y gwaethgiad yn yr achos hwn yn ISEL.

10.4 Ffactorau lliniarol

Ffactorau lliniarol yw'r ffactorau sy'n tueddu i leihau difrifoldeb y camymddwyn. Yn yr achos hwn, cyflwynodd y Panel dystiolaeth sylweddol ar ffurf adroddiadau meddygol, tystiolaeth fyw gan Dr. [REDACTED] Davies a thystiolaeth lafar y swyddog mewn perthyn [REDACTED] y gwnaeth y swyddog ddadlau iddo effeithio ar ei ymddygiad yn yr achos hwn. Roedd un nodwedd o'r dystiolaeth hon yn ymwneud â ph'un a oedd y weithred o yfed alcohol yn syth cyn gyrru gartref, yn gam gwirfoddol neu anwirfoddol ei natur.

Mae'n amlwg bod DI Gless wedi bod trwy nifer o ffactorau straen yn ei fywyd personol a phroffesiynol a'i fod yn parhau i fynd trwy'r rhain a bod gan y Panel y cydymdeimlad pennaf ag ef.

Adolygodd y Panel yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ein bron ynn ofalus. Gwnaeth [REDACTED] patrwm o yfed mwyfwy trwm dros nifer o flynyddoedd.

Ystyriodd y Panel agweddau penodol ar dystiolaeth y swyddog, ac ar dystiolaeth Dr Davies. Nododd y Panel honiad DI Gless yn ystod ei dystiolaeth fyw fod ganddo reolaeth ar ei yfed ac y gallai wahanu ei yfed oddi wrth sefyllfaoedd y gweithle. Mae hyn yn dangos lefel o reolaeth i'r Panel a allai fod wedi'i defnyddio ar y diwrnod hwnnw ond ni chafodd ei wneud. Gwnaeth safbwynt Dr. Davies ein perswadio y byddai gan swyddog oedd yn gallu gwahanu pethau fel yr oedd DI Gless yn eu disgrifio lefel uchel o allu i reoli'r daith gartref heb fod angen yfed ac wedyn gyrru.

Cafodd y Panel ei daro hefyd gan dystiolaeth y swyddog iddo benderfynu prynu'r gwin a'i yfed i ffwrdd o'i dŷ oherwydd ei fod am guddio'r ffaith ei fod yn yfed ac mae hyn yn groes i'r honiad fod ei lefel yfed y tu allan i'w reolaeth rywsut. Mae'r Panel wedi cael tystlythyrau amrywiol ond nid yw'r rhain yn cael eu hystyried yma yn unol â chanllawiau'r Coleg Plismona.

Yn ogystal, mae'r Panel wedi ystyried mai un episod a barodd am amser cyfyngedig oedd y camymddwyn yn yr achos hwn.

Gwnaed cyfaddefiadau yn gynnar, os nad yn syth wrth arestio'r swyddog.

Nododd y Panel yr edifeirwch a ddangosodd DI Gless yn ei dystiolaeth fyw ac nid oes amheuaeth iddo gyflawni dealltwriaeth bersonol a'i fod wedi cymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd.

Fel Panel, daethom i'r casgliad bod lefel ISEL o liniaru yn yr achos hwn.

Diffinnir camymddwyn yn Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 fel achos o dorri'r safonau ymddygiad proffesiynol sy'n ddigon difrifol i gyfiawnhau camau disgyblu. Ystyr camymddwyn difrifol yw achos o dorri'r safonau sy'n ddigon difrifol i gyfiawnhau camau diswyddo.

Ar ôl ystyried yr holl ffactorau uchod, roedd y Panel o'r farn bod hwn yn achos lle y canfyddir bod y swyddog wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol a'i fod mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau diswyddo. **Roedd y Panel o'r farn bod gweithredoedd y swyddog yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol.**

11.0 CANLYNIAD

11.1 Ar ôl cadarnhau bod yr achos o dorri'r safon broffesiynol, ymddygiad annheilwng yn gyfystyr â Chamymddwyn Difrifol, rhaid i'r Panel fynd ati i benderfynu beth y dylai'r cam disgyblu fod.

11.2 Helpwyd y Panel gan gyflwyniadau ar gwestiwn y canlyniad, ac ar ôl clywed cynrychioliadau, ystyriodd y Panel y canlyniad priodol.

11.3 Wrth gadarnhau'r cam disgyblu priodol yn yr achos hwn, mae'r Panel wedi ystyried Canllawiau'r Coleg Plismona ar ganlyniadau yn achosion camymddwyn yr heddlu (2022) ("y canllawiau") sy'n cynnwys yr angen i wneud y canlynol:

Aesu difrifoldeb yr achos o gamymddwyn drwy gyfeirio at y canlynol:

1. beusrwydd y swyddog am yr achos o gamymddwyn.
2. y niwed a achoswyd gan yr achos o gamymddwyn.
3. bodolaeth unrhyw ffactorau gwaethybol.
4. presenoldeb unrhyw ffactorau lliniarol.

- b) cadw diben y camau disgyblu a osodir mewn cof; a
- c) dewis y cam disgyblu sy'n cyflawni'r diben hwnnw yn y ffordd fwyaf priodol o ystyried difrifoldeb y camymddygiad dan sylw er mwyn i'r Panel weithredu mewn ffordd gymesur.

11.4 Roedd y Panel hefyd yn ystyriol o'r egwyddorion a nodir yn R (Prif Gwnstabl Heddlu Manceinion Fwyaf) yn erbyn Panel Camymddwyn yr Heddlu a Roscoe (HHJ Pelling CF yn eistedd fel Barnwr Uchel Lys, Tachwedd 2018) lle mae'r Llys Gweinyddol yn pwysleisio pwysigrwydd dilyn y dull gweithredu 3 cham strwythuredig fel y nodir yn y canllawiau. Mabwysiadodd y Panel y dull gweithredu hwn.

11.5 Mewn perthynas â difrifoldeb, ystyriodd y Panel Ganllawiau 2022 ar ganlyniadau achosion camymddygiad yr heddlu.

12.0 Beiusrwydd

12.1 Mae hyn yn cyfeirio at raddau'r beiusrwydd. Y swyddog yn unig oedd yn gyfrifol am ei weithredoedd, gwnaeth ddewisiadau bwriadol yn y gweithredoedd a gyflawnodd. Roedd D.I. Gless yn swyddog profiadol ac roedd y disgwyliadau ohono fel swyddog yn glir.

Canfu'r Panel fod lefel ei feiusrwydd rhwng canolig ac uchel.

13.0 Niwed

13.1 O'r "mathau" o niwed a gafodd eu categoreiddio ym Mharagraff 4.64 o ganllawiau'r Coleg Plismona, mae'r rhai perthnasol fel a ganlyn:-

Niwed i'r cyhoedd – Mae angen i'r cyhoedd allu parchu'r heddlu. Mae euogfarn droseddol am drosedd garcharadwy yn tanseilio ymdrechion gwasanaeth yr heddlu i gyflawni'r nod hwn.

Agwedd bellach ar y niwed a achoswyd yn yr achos hwn yw'r **niwed i enw da** Heddlu De Cymru ac i blismona yn gyffredinol. Mae'r Panel wedi canfod y byddai ymddygiad y swyddog yn effeithio ar enw da gwasanaeth yr heddlu a'r bobl sy'n gwasanaethu ynddo. Ni all yr achos presennol gael ei ystyried ar ei ben ei hun rhag cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion disgyblu yng ngwasanaeth yr heddlu, ac o ganlyniad, bydd y niwed i enw da unrhyw heddlu y canfu bod cyn swyddog ynddo wedi torri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol yn ddifrifol ac yn niweidiol heb amheuaeth.

13.2 Fel y nodwyd yn achos Fuglers LLP yn erbyn SRA [2014] EWHC 179 (Gweinyddol) yn [29], un o'r ffactorau pwysicaf yw effaith yr achos o gamymddwyn ar statws ac enw da'r proffesiwn yn ei gyfanrwydd. At hynny, gall difrifoldeb y camymddwyn fod yn y risg o niwed y mae'r camymddwyn yn ei gyflwyno, p'un a fydd yn arwain at risg neu beidio. Caiff lefel y niwed ei asesu fel canolig gan y Panel.

13.2 O'r arsylwadau uchod, mae'r Panel yn glir bod camau gweithredu'r swyddog wedi achosi risg neu risg bosibl o niwed difrifol a pharhaus i enw da gwasanaeth yr heddlu.

14.0 Ffactorau gwaethgol:

14.1 Er y cafwyd achos o dorri Safon Ymddygiad Proffesiynol, mae'r Panel wedi cadw mewn cof ein bod yn poeni am gwrs ymddygiad a gynhaliwyd dros gyfnod byr o amser. Ni fydd cyfrif dwbl yn ein hasesiad o niwed a chymhwysu'r egwyddorion sy'n gorchymyn y canlyniad.

14.2 Nid yw'r Panel yn canfod nodweddion gwaethgol yn yr achos hwn y tu hwnt i nodweddion y digwyddiad sydd eisoes wedi'u trafod uchod.

Mae'r Panel yn teimlo bod y ffactorau gwaethgol yn isel.

15.0 Ffactorau lliniarol:

Canfu'r Panel mai bach iawn o liniaru oedd mewn perthynas ag amgylchiadau'r achos. Prynodd y swyddog y botel o win mewn siop leol ochr yn ochr â rhai nwyddau i'w cludo gartref. Cyfaddefodd iddo aros yn ei gar am awr yn yfed yr hyn sy'n gyfwerth â dwy botel fach o win cyn gyrru'r pellter byr i'r man lle y cafodd ei arestio.

O ran lliniaru personol, cyflwynwyd cryn dystiolaeth i'r Panel ar ffurf adroddiadau meddygol, tystiolaeth fyw gan Dr. [REDACTED] Davies a thystiolaeth lafar y swyddog mewn perthynas â'i [REDACTED] iechyd, tystiolaeth y gwnaeth y swyddog ddadlau ei bod wedi effeithio ar ei ymddygiad yn yr achos hwn. Roedd un nodwedd o'r dystiolaeth hon yn ymwneud â ph'un a oedd y weithred o yfed alcohol yn syth cyn gyrru gartref, yn gam gwirfoddol neu anwirfoddol ei natur.

Mae'n amlwg bod DI Gless wedi bod yn mynd trwy nifer o ffactorau straen yn ei fywyd personol a phroffesiynol a'i fod yn parhau i wneud. Mae gan y Panel y cydymdeimlad pennaf ag ef.

Adolygodd y Panel yr holl dystiolaeth o'u blaenau yn ofalus. Gwnaethom nodi patrwm o yfed mwyfwy trwm dros nifer o flynyddoedd o'r adroddiadau meddygol amrywiol.

Fodd bynnag, roedd rhai ffactorau o bwysigrwydd penodol i'r Panel. Honiad DI Gless yn ystod ei dystiolaeth fod ganddo reolaeth ar ei yfed ac y gallai wahanu ei yfed wrth sefyllfaoedd y gweithle. Dangosodd hyn i'r Panel lefel o reolaeth a allai fod wedi'i defnyddio gan y swyddog ar y diwrnod hwnnw ond na wnaeth ei defnyddio. Cafodd y Panel ei berswadio gan safbwynt Dr. Davies y byddai gan swyddog oedd yn gallu gwahanu pethau fel yr oedd DI Gless yn eu disgrifio lefel uchel o allu i reoli'r daith gartref heb fod angen iddo yfed ac wedyn gyrru.

15.1 Mae'r ffactorau lliniarol a ystyriwyd ar ran y swyddog yn glir ond yn anffodus, maent o natur gyfyngedig yn amgylchiadau penodol yr achos hwn.

15.2 Mewn perthynas â diben gosod camau disgyblu mewn achosion camymddygiad yr heddlu:

a) Y diben cyntaf yw diogelu hyder y cyhoedd ym maes plismona ac enw da plismona;

b) Yr ail ddiben yw'r diben datganedig o gynnal safonau proffesiynol uchel drwy ddangos i swyddogion eraill y bydd yn defnyddio camau disgyblu o ddifrifoldeb penodol i ymdrin â chamymddygiad o fath penodol a/neu ddifrifoldeb penodol; ac

c) Y trydydd diben yw diogelu'r cyhoedd a/neu swyddogion a staff drwy atal y swyddog rhag camymddwyn mewn ffordd debyg eto drwy ei wahardd o wasanaeth yr heddlu.

Yn Redgrave yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu Metropolis [2003] 1, cymeradwyodd WLR 1136 Simon Brown LJ (fel yr oedd ar y pryd) yn [33] sylw canlynol yr Arglwydd Diplock yn Ziderman yn erbyn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol [1976] 2 All ER 334 atp.336: 72 “The purpose of disciplinary proceedings against a person convicted of crime is not to punish him a second time for the same offence but to protect the public who come to him as patients and to maintain the high standards and good reputation of an honourable profession”. (ychwanegwyd pwyslais)

15.4 Mae lliniaru personol yn bwysig a rhaid iddo gael ei ystyried. Mae'r Panel wedi ystyried y mesurau lliniaru a roddwyd gerbron gan y Cwnsler ar gyfer y swyddog.

Fodd bynnag, mae'r penderfyniadau uchod yn rhoi canllawiau clir ar y pwysau cyfyngedig i'w rhoi i fesurau lliniaru personol (yn wahanol i liniaru ymddygiad) mewn achosion disgyblu proffesiynol yn gyffredinol a gwrandawiadau camymddwyn yr heddlu yn benodol.

15.5 Yn Bolton, esboniodd Syr Thomas Bingham MR pam yr oedd lliniaru personol yn cario llai o bwysau yn y cyd-destun disgyblu proffesiynol na'r cyd-destun troseddol yn p.519B-D “Because orders made by the Tribunal are not primarily punitive, it follows that considerations which would ordinarily weigh in mitigation of punishment have less effect on the exercise of this jurisdiction than on the ordinary run of sentences imposed in criminal cases. It often happens that a solicitor appearing before the tribunal can adduce a wealth of glowing tributes from his professional brethren. He can often show that for him and his family the consequences of striking off or suspension would be little short of tragic. Often, he will say, convincingly, that he has learned his lesson and will not offend again. On applying for restoration after striking off, all these points may be made, and the former solicitor may also be able to point to real efforts made to re-establish himself and redeem his reputation. All these matters are relevant and should be considered. But none of them touches the essential issue, which is the need to maintain among members of the public a well- founded confidence that any solicitor whom they instruct will be a person of unquestionable integrity, probity and trustworthiness.”

15.6 I gloi, rhaid i'r Panel ystyried mesurau lliniaru personol y swyddog, ond byddai'r pwysau i'w priodoli i'r mesurau lliniaru hynny:

a) yn llai nag y byddai mewn treial troseddol; ac

b) yn dibynnu ar y graddau y mae camymddygiad y swyddog yn bygwth hyder y cyhoedd.

16.0 Ar ôl dilyn y camau uchod, aeth y Panel ati i ddewis y cam disgyblu sy'n cyflawni diben gosod camau disgyblu yn y ffordd fwyaf priodol, o ystyried difrifoldeb yr ymddygiad dan sylw (gan gofio'r angen i weithredu mewn ffordd gymesur).

16.1 Aeth y Panel ati i ystyried yr holl ganlyniadau sydd ar gael.

Dyma'r canlyniadau sydd ar gael mewn gwrandawriad camymddwyn:

- „ rhybudd ysgrifenedig
- „ rhybudd ysgrifenedig terfynol
- „ gostyngiad mewn rheng
- „ diswyddo heb rybudd

16.2 Ystyriodd y Panel yr holl opsiynau uchod, yn enwedig a fyddai rhybudd ysgrifenedig terfynol yn briodol ac yn gymesur o gofio amgylchiadau a difrifoldeb yr achos.

16.3 Gwnaeth y Panel gydnabod hefyd fod geirdaon cymeriad wedi'u darparu a pha mor gynnes roedd y bobl yn siarad am eu rhyngweithiadau â'r Swyddog hwn.
Er bod y ffactorau lliniarol personol hyn o ddiddordeb, nid yw'r canllawiau'n caniatáu i ni roi fawr ddim pwys iddynt.

16.4 Ein rôl ni fel Panel yw cynnal hyder y cyhoedd yng ngwasanaeth yr heddlu a'i enw da, cynnal safonau uchel, atal achosion o gamymddwyn ac amddiffyn y cyhoedd. Nid oedd y Panel yn credu bod modd cyflawni hyn yn effeithiol ac yn gynaliadwy drwy rybudd ysgrifenedig terfynol.

17.0 Felly, mae'r Panel yn casglu bod yn rhaid mai'r canlyniad priodol yn yr achos hwn yw diswyddo heb rybudd.

Llofnod: Jenny Gilmer

CADEIRYDD

Dyddiad:06/03/26

Llofnod: Elizabeth James

AELOD ANNIBYNNOL O'R PANEL

Dyddiad:06/03/26: 06/03/26

Llofnod: Mark Rees

AELOD ANNIBYNNOL O'R PANEL

Dyddiad: 06/03/26
